Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Spencer Birns - Prif Swyddog Gweithredol, Maes Awyr Caerdydd
Wayne Harvey - Cadeirydd, Maes Awyr Caerdydd
David Walters - Prif Swyddog Ariannol, Maes Awvr Caerdvdd

18 Tachwedd 2021

Annwyl Syriaid

Maes Awyr Caerdydd

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Tachwedd. Rwyf wedi rhestru isod y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod a byddwn yn croesawu cael eich ymateb erbyn 7 Ionawr 2022:

- Gwnaethoch gytuno i wirio ffigurau'r Awdurdod Hedfan Sifil a chadarnhau'r ffigurau cywir ar gyfer y tunelledd a gludwyd o 2018 hyd heddiw. Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cael y ffigurau hyn fesul blwyddyn calendr, yn hytrach na fesul blwyddyn ariannol.

- Ym mis Mehefin 2020, dywedasoch wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau am y camau yr oeddech yn eu cymryd i leihau costau tra oedd y derfynfa ar gau. Fe wnaethoch gytuno i ddarparu'r ffigurau hynny i ni yn gyfrinachol y tu allan i'r sesiwn gyhoeddus.

- Gwnaethoch gytuno i ddweud wrthym yn ysgrifenedig sut y bydd y cyllid grant o £16 miliwn ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddefnyddio, ac i ba raddau y bydd yn talu am refeniw a gollir yn 2021-22 yn ogystal â chostau gweithgareddau eraill.

- Cytunwyd hefyd i rannu gwybodaeth am y cerrig milltir a'r dangosyddion perfformiad a bennwyd i chi eu cyrraedd dros y pum mlynedd hyd at 2026, fel y'u manylir yn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro.

Yn ystod trafodaeth breifat y Pwyllgor o'r dystiolaeth a gafwyd, cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y materion uchod gyda chi, mewn sesiwn breifat, yn y flwyddyn newydd. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'ch Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020/21 ataf pan fydd y Bwrdd wedi eu cymeradwyo a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi. Dywedasoch y byddai hyn yn digwydd cyn 31 Rhagfyr 2020.

Bydd Clerc y Pwyllgor yn cysylltu â chi i drefnu sesiwn breifat gyda chi.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor